**Dydd Mercher, Hydref 24ain, 2024**

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, y Stryd Fawr, Llandybïe, a thrwy gyfrwng Microsoft Teams, ar ddydd Mercher, Hydref 24ain, 2024 am 6.30 yh**

**Presennol**

**Cynghorwyr;** R. A. Davies, J.W. Tandy, D. Hopkins, N. C. Davies, A. Evans, L. Wilkins

**Yn mynychu arlein;** Mrs K. D. L Davies, D. Thomas, E. J. Davies

**Ymddiheuriadau;** P. H. Roberts, C. R. Thomas

**527.**

**Datganiadau o Fuddiant.**

Roedd y Cyng R. A. Davies wedi datgan ei fod yn aelod o Glwb Tenis Llandybïe parthed ag Eitem 1 ar yr agenda, sy'n cyfeirio at wariant cyllideb yng Nghwrt Tenis Llandybïe.

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddiwrth y Cyng P. H. Roberts a'r Cyng C. R. Thomas

**528.**

**Cynllun 5 Mlynedd Rheoli Asedau.**

Agorodd y Clerc y drafodaeth drwy gyfeirio at y Cynllun 5 Mlynedd Rheoli Asedau roedd wedi'i ddatblygu gan egluro tra bod y flwddyn gyntaf a'r ail wedi'u nodi'n fanwl, roedd y blynyddoedd canlynol yn ddyheadau ynghylch yr hyn roedd yn teimlo yw'r blaenoriaethau a gynhwysir ar y rhestr o asedau cyfredol, a'r gwariant sydd ei angen i gynnal a chadw'r asedau sydd ym merchnogaeth y cyngor.

Roedd hefyd wedi esbonio bod y 'Prosiectau Newydd' yno o'r drydedd flwyddyn ymlaen er mwyn gosod yn ei le agenda cynllunio ymlaen llaw ar gyfer y Cyngor, ac anogodd y Cynghorwyr i ystyried eu wardiau eu hunain, a dechrau ymgysylltu ar brosiectau cymunedol y dyfodol a'r gwariant roedd ganddynt mewn golwg o ran eu gweledigaeth ar gyfer eu wardiau.

**5 Year Asset Plan Projections**

| | 2025 - 26 | | | 2026 - 27 | | 2027-28 | | 2028-29 | | 2028 - 29 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Projects** | **Cost** | **Grants to be applied for** | **VAT Claims** | **Projects** | **Cost** | **Projects** | **Cost** | **Projects** | **Cost** | **Projects** | **Cost** |
| **Community Project from Budget** | | | | | | | | | | | |
| Saron Park | 15000 | 5000 | 3000 | Blaenau Park | 15000 | Derwydd Park | 10000 | Llandybie Park | 10000 | Bonllwyn Park | 10000 |
| Llandybie Tennis Courts **(total project £61,000 inc vat) £51,000 net** | 32500 | 18,500 | 10500 | Cwmgwili Park Upgrade | 15000 | Penybanc | 10000 | Penygroes | 10000 | Derwydd Park | 10000 |
| CCTV at Saron Park | 5000 | 0 | 1000 | | | Capel Hendre Park | 10000 | Gors Ddu | 5000 | | |
| | **48500** | | | | **30000** | | **30000** | | **25000** | | |
| **Maintenance of Assets Budget** | | | | | | | | | | | |
| Heating System at Llandybie Pavilion | 11000 | 3500 | 1850 | Solar Panels Llandybie Pavilion | 5000 | Llandybie Pavilion | 5000 | To be decided | | To be decided | |
| Shed Roof at Llandybie Pavilion | 2000 | 0 | 0 | Upgrade Offices | 3000 | Upgrade of 16 notice boards | 10000 | To be decided | | To be decided | |
| General | 3000 | 3000 | 300 | Llandybie Toilets | 4000 | | | | | | |
| | | | | Penygroes Toilets | 4000 | | | | | | |
| | **16000** | | | | **16000** | | **15000** | | **16000** | | **16000** |
| **Parks and Repairs Budget** | | | | | | | | | | | |
| Rubber Overlay at Heol Ddu Park Penygroes | £2,920.00 | 0 | 0 | General park maintenance | 10000 | General park maintenance | 10000 | | | | |
| Gate at Children's Play Area Penygroes Park | £1,425.00 | 0 | 0 | | | | | | | | |
| Removal of Fence at Capel Hendre Park | £950.00 | 0 | 0 | | | | | | | | |
| Contribution to Riverway Park Bonllwyn | £5,000.00 | 0 | 0 | | | | | | | | |
| | **£10,295.00** | | 16650 | | **10000** | | **10000** | | **10000** | | **10000** |
| | | | | **New projects** | **15000** | **New Projects** | **20000** | **New Projects** | **20000** | **New Projects** | **25000** |

Cyfeiriodd y Clerc mewn manylder, llinell wrth linell, at y Cynllun 5 Mlynedd Rheoli Asedau er mwyn esbonio'r gwariant roedd wedi'i gynnwys a fyddai'n effeithio ar yr eitem nesaf, sef y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025/26.

Trafodaeth o'r Gyllideb a'r Gwariant ar brosiectau ased:

- **Parc Saron:** Eglurodd y Clerc ei fod wedi cwrdd â chynghorwyr o bob ward yn y parciau, a'i fod yn glir iddo bod y gwariant ym Mharciau Llandybïe a Phenygroes yn golygu y dylid blaenoriaethu Saron, ac argymhellodd bod £15,000 yn cael ei gyllido. Aeth ymlaen i egluro ei fod wedi'i gadarnhau ei fod yn gymwys i wneud cais at Gronfa Fferm Wynt y Betws ac y byddai'n gwneud cais yn ddamcanus am £5,000. Hefyd, eglurodd nad oedd wedi cynnwys grantiau 'i'w ceisio amdanynt' yn y gyllideb oherwydd nid oeddynt yn incwm sydd wedi'i gadarnhau.

- **Cyrtiau Tenis Llandybïe:** Eglurodd y Clerc ei fod wedi derbyn tri dyfynbris ac ymweliad gan gontractwr yn Ionawr 2024 i ddarganfod y gost, a dyfynnwyd pris o £51,000 a TAW. Hefyd, eglurodd ei fod yn derbyn dyfynbrisiau wedi'i diweddaru ynghylch y ffigwr hwn, o ganlyniad i'r amser a oedd wedi mynd heibio ers i'r prosiect dderbyn y dyfynbris gwreiddiol. Byddai'r TAW yn dod i tua £10,000. Dywedodd ei fod eisoes wedi sicrhau £18,500 o arian grant tuag at y prosiect.

Roedd y Cyng N. C. Davies am wybod pam nad oedd unrhyw grantiau wedi'u derbyn oddiwrth Chwaraeon Cymru; roedd y Clerc wedi cadarnhau ei fod wedi ystyried hyn ynghyd â saith ffynhonnell grant arall, a bod pob un o'r mudiadau grant wedi cadarnhau nad oedd y prosiect yn gymwys i dderbyn cymorth grant. Roedd Tenis Cymru wedi gwrthod cais yn benodol oherwydd ein polisi o beidio codi tâl ar y cyhoedd sy'n talu'r praesept, am ddefnyddio'r cyrtiau a, fel daliwr prydles, nid yw'r gronfa 'Chwaraeon Byw' ar gael at ddefnydd Cynghorau Cymuned sy'n derbyn eu cyllid drwy braesept. Er y byddai Clwb Tenis Llandybïe yn gymwys i wneud cais, nid oeddent yn dal prydles ar y cyrtiau fel ased, ac roedd cais pellach am Gais ar y

Cyd wedi'i wrthod. Ystyriwyd Chwaraeon Byw a Chronfa Tenis i Bawb Sir Gaerfyrddin ond, rhai blynyddoedd ynghynt, nid oedd Cyngor Cymuned Llandybïe wedi cymryd rhan yn hyn gan nad oeddent yn gallu cytuno ar dermau i godi tâl am ddefnyddio'r cyrtiau a thermau ad-dalu £1,500 y flwyddyn. Fodd bynnag, caeodd y gronfa hon yn 2023.
Roedd y Clerc wedi cadarnhau bod yr angen am Wyneb Tenis newydd yn gritigol oherwydd bod yr wyneb wedi'i ddifrodi ac yn dal dŵr, ac yn agored i ddifrod pellach gan rhew. Roedd hefyd wedi datblygu i fod yn fan bridio problem mwsogl difrifol. Nodod efallai y bydd rhaid cau'r cyrtiau yn y tymor nesaf oherwydd pe byddai aelod o'r cyhoedd yn llithro ac yn cael anaf, byddai hyn yn effeithio ar ein yswiriant indemniad. Roedd hefyd wedi hysbysu'r Clwb Tenis efallai y byddai rhaid iddynt gynnal eu nosweithiau clwb a gemau ar gyfleusterau cyfagos Rhydaman.

Roedd y Cyng D. Thomas wei mynegi ei farn bod hyn yn ddefnydd drud iawn o'r praesept, ac holodd y Cyng N. C. Davies pa warant oedd am y gwaith, o ran yr angen i ail-wynebu'r cyrtiau yn y blynyddoedd i ddod. Eglurodd y Clerc nad oedd modd i'r contractwyr warantu hyn gan na fyddent yn gyfrifol am y lefel defnydd o'r cyrtiau dros y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, roeddent wedi cynnig y cyngor ei fod yr arferol ail-haenu'r wyneb wedi 5 mlynedd, a'u bod ond yn anaml yn cael eu galw allan i ail-osod yr wyneb o dan ystyriaeth cyn pen 10 mlynedd.

Roedd y Cyng R. A. Davies wedi cwestiynu'r gost a'r diffyg yn y gwariant, ond roedd y Clerc wedi egluro nad oedd diffyg. Byddai rhaid i'r Gymuned dalu'r TAW o tua £10,000, ond byddai'r Clerc yn gallu hawlio'r swm hwnnw'n ôl yn yr hawliad TAW chwarterol ar ddiwedd mis Mehefin, er mwyn chwistrellu'r swm i'r incwm yn y flwyddyn gyllidebol 2025/26.

Roedd y Cyng R. A. Davies hefyd wedi datgan ei farn efallai nad oedd modd goresgyn y broblem a achosir gan y mwsogl drwy osod wyneb newydd, ac y bydda'r cyngor yn ôl yn yr un sefyllfa ynghynt nag y byddai'n disgwyl. Atebodd y Clerc gan ddweud nad oedd yn arbenigwr ar Gyrtiau Tenis a atal mwsogl, ond ei fod wedi cymryd cyngor y contractwr ynghylch atal tyfiant ar yr wyneb newydd. Roedd wedi derbyn cyngor y byddai gwaredu'r coed sy'n bargodi dros y safle, yn atal golau rhag cyrraedd y cyrtiau ac achosi dail i gasglu arnynt, yn syniad da a thrin y mwsogl yn gyson o'r dechrau i'w atal rhag sefydlu ei hun. Hefyd, eglurodd bod pŵer-glanhau yn y gorffennol wedi difrodi'r wyneb, a byddid yn osgoi gwneud hyn yn y dyfodol. Dywedodd y Cyng R. A. Davies ei fod wedi bod yn ymwneud â'r clwb fel aelod pwyllgor tan y flwyddyn ddiwethaf ac nid oedd y fath pŵer-lanhau wedi digwydd erioed; cynigiodd y Clerc nodi hynny yn y cofnodion.

Roedd y Cyng R. A. Davies wedi holi faint oedd y Clwb Tenis yn cyfrannu tuag at gost y cyrtiau newydd. Roedd y Clerc o'r farn taw ni, y perchnogion ac mewn gwirionedd y landlordiaid, y Cyngor Cymuned, y dylai dalu'r gost o gynnal a chadw'r ased. Roedd y Cyng R. A. Davies wedi esbonio bod y Clwb Tenis, yn y gorffennol, wedi cynnig cyfraniad, ac roedd y Cyng N. C. Davies y cytuno y dylid o leiaf gofyn iddynt wneud.

Roedd y Cyng A. J. Evans wedi mynegi ei farn bod y gost yn fuddsoddiad da wedi iddo ddeall bod y cyrtiau wedi'u hail-osod dros 20 mlynedd yn ôl, er i'r Clerc ychwanegu bod y cyrtiau wedi derbyn haen newydd tua 5 mlynedd yn ôl.

**Cynigiwyd** gan y Cyng N. C. Davies ac **Eiliwyd** gan y Cyng R. A. Davies bod y Clerc yn ysgrifennu at y Clwb Tenis i ofyn am gyfraniad.

Gofynnodd y Cadeirydd am benderfyniad p’un ai y dylid cynnwys y gwariant ar y Cyrtiau Tenis yng nghyllideb 2025/26; cynigiwyd hyn gan y Cyng E. J. Davies a’i Eilio gan y Cyng N. C. Davies. Gofynnodd y Clerc am bleidlais i gadarnhau hyn, a chofnodwyd pleidlais o 8 i 1 o blaid. Pasiwyd y gwariant cyllideb.

- **Teledu Cylch Cyfyng ym Mharc Saron:** Esboniodd y Clerc bod y gwariant hwn, sef £5,000, eisoes wedi’i gytuno arno i’w dalu o’r arian wrth gefn yn 2024/25, ond gofynnodd bod hyn yn cael ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2025/26. Cynigiwyd hyn gan y Cyng N. C. Davies a’i Eilio gan y Cyng L Wilkins.

- **To’r Sied yn y Grîn Bowlio, Llandybïe:** Esboniodd y Clerc bod oedi wedi bod yn atgyweirio’r to hwn oherwydd bod amheuaeth ei fod yn cynnwys asbestos. Roedd wedi gofyn i’r Cyngor Sir archwilio’r mater, ond gofynnodd bod gwariant o £2,000 yn cael ei gyllido, yn amodol ar ganlyniadau’r archwiliad asbestos.

- **System Wresogi ym Mhafiliwn Llandybïe:** Esboniodd y Clerc bod costau’r system, sydd wedi bod yn ei lle am dros 30 mlynedd, yn golygu bod y biliau ynni yn codi’n uchel iawn, felly gofynnodd bod £10,000 yn cael ei gyllido er mwyn gosod yn eu lle gwresogyddion trydanol newydd, a bod paneli solar yn cael eu hychwanegu yn y flwyddyn ganlynol, 2026/27.

Roedd y Cyng N. C. Davies o’r farn nad oedd hyn yn mynd yn ddigon pell, wedi i’r Clerc egluro y byddai modd ystyried Pwmp Gwres Ffynhonell Aer yn y drydedd flwyddyn; roedd y Cyng A. J. Evans yn cytuno a chefnogwyd hyn gan y Cyng D. Thomas a’r Cyng L. Wilkins.

Cynigiwyd gan y Cyng N. C. Davies bod £20,000 yn cael ei gyllido, yn amodol ar bod y Clerc yn caffael cost y system ar gyfer cyllideb 2025/26, ac yn archwilio pa grantiau sydd ar gael. Eiliwyd hyn gan y Cyng D. Thomas.

- **Troshaen Rwbwr ym Mharc Gors Ddu:** Esboniodd y Clerc bod hyn wedi’i nodi yn ystod Arolwg o’r Parc, a bod angen gwneud gwaith yn y flwyddyn sy’n dod; cytunwyd cynnwys £2,920 yn y gyllideb er mwyn sicrhau bod y parc yn cydymffurfio â gofynion.

- **Gât yn Ardal Chwarae y Plant, Parc Penygroes:** Esboniodd y Clerc y byddai hyn y datblygu’n fater o gydymffurfio, a chytunwyd cynnwys £1,425 yn y gyllideb.

- **Gwaredu’r Ffens ym Mharc Capel Hendre:** Esboniodd y Clerc bod angen cynnig y cyfle i agor y parc at ddiben plannu, a bod y ffens dolen gadwyn yn dechrau rhydu a gallai fod yn beryglus; cytunwyd cynnwys £950 yn y gyllideb i waredu’r ffens.

- **Cyfraniad at Barc Ffordd yr Afon, ger Dôl Y Dderwen:** Roedd y Clerc wedi argymhell y dylid cyfrannu £5,000 tuag at y gost o uwchraddio'r parc a oedd, mewn gwirionedd, yng ngofal Cyngor Tref Rhydaman fel ased. Roedd y Cyng A. W. Jones wedi gwneud y cais mewn cyfarfod blaenorol oherwydd bod tua 120 o dai preswyl, o ganlyniad i reolau rhyfedd y comisiwn ffiniau, wedi'u lleoli yn Ward Heol Ddu.

Roedd y Cyng E. J. Davies a Chadeirydd y Cyfarfod, y Cyng J Tandy, yn erbyn gwneud hyn ar y sail bod modd dweud yr un peth mewn achosion eraill, gan fod ein parc ni ym Monllwyn yn agos i ffin Rhydaman, a bod Parc Penybanc yr un mor agos i Dycroes – yn syml, y ffaith yw ein bod yn derbyn ein praesept ar sail ffiniau'r cyngor.

Roedd y Cyng R. A. Davies am i'r cyfarfod wybod tra dyma oedd y sefyllfa - roedd hi'n ffaith bod trigolion Dôl y Dderwen yn defnyddio'r parc. Roedd y Cyng E. J. Davies, y Cyng N. C. Davies a Chadeirydd y Cyfarfod, y Cyng J. Tandy wedi ymateb gan ddweud bod modd defnyddio'r un rhesymeg pan yn ystyried trigolion Bonllwyn yn defnyddio Parc Bonllwyn neu drigolion Llandybïe yn defnyddio Parc Rhydaman.

**Cynigiwyd** gan y Cyng N. C. Davies i beidio cynnwys hwn yn y gyllideb, ac **eiliwyd** y cynnig gan y Cyng E. J. Davies, gyda'r Cyng E. J. Davies yn holi'r Clerc os oedd cyllido Praesept Cymuned arall yn dderbyniol yn ôl ein Rheolau Sefydlog neu, yn wir, o fewn Pwerau Statudol Cyngor Cymuned.

Daeth y Clerc â'r drafodaeth i ben gan fynd drwy pob pennawd o'r Cynllun 5 Mlynedd Rheoli Asedau, gan wahodd unrhyw sylwadau. Dywedodd y Cyng D. Thomas gan fod y golofn 'Prosiectau Newydd' yn gofyn am syniadau pellach; roedd am gynnig bod y Clerc yn archwilio gosod Weiren Wib ym Mharc Penygroes. Cytunodd y Clerc wneud hyn yn ystod y flwyddyn nesaf, ac i'w nodi fel cais am brosiect yn y flwyddyn gyllidebol 2026/27, gan glustnodi'r swm o £12,000, fel roedd y Cyng D. Thomas, wedi iddo wneud ymholiadau cychwynnol, wedi awgrymu y byddai angen.

**Argymhellwyd** bod y Clerc yn diweddaru'r Cynllun 5 Mlynedd Rheoli Asedau drafft i adlewyrchu'r drafodaeth ac ychwanegu, lle bo hynny'n gymwys, at Gyllideb Drafft 2025/26 er mwyn cynnwys y newidiadau y cytunwyd arnynt, yna i'w ohirio tan gyfarfod nesaf y pwyllgor Cyllid yn Tachwedd, a'i gynnig i'w **ddilysu** gan y cyngor llawn yng Nghyfarfod Cyffredin mis Tachwedd.

**529.**

**Trafodaeth ynghylch Cyllideb Drafft 2025/26.**

**Cyngor Cymuned Llandybïe - Cynnig y gyllideb 2025-26**
**Llandybie Community Council - Budget Proposal 2025-26**
**DRAFT PROPOSAL**
**EXPENDITURE & INCOME**

| | 2024-25 | Proposal 2025-26 | |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | |
| Presept | 180,000 | 180,000 | Precept |
| Llog : Lloyds | 800 | 800 | Interest: Lloyds |
| Llog : cyfrifon buddsoddi | 250 | 3,500 | Interest: investment accounts |
| VAT | 12,000 | 24,000 | VAT |
| Section 106 | 21,750 | 0 | Saron TBD |
| Grants (Betws Wind Farm Fund) | 0 | 15,000 | |
| Hawliau tramwy | 3,000 | 3,000 | Rights of way |
| Cytundebau llogi | 4,700 | 5,000 | Hire Agreements |
| | 222,500 | 231,300 | |
| Staff | 61,864 | 57,252 | Staffing |
| Adeiladau | 22,000 | 22,000 | Premises |
| Insurance | 2,500 | 3,600 | Insurance |
| Gwasanaethau swyddfa | 6,000 | 7,500 | Office Services |
| Costau Aelodau | 15,875 | 15,000 | Member costs |
| Gwasanaetyhau a Tanysgrifiadau | 6,050 | 6,050 | Services and Subscriptions |
| Adran 137 | | 0 | Section 137 |
| Taliadau dan bwerau eraill | | 0 | Payments under other powers |
| Mannau agored cyhoeddus | | 0 | Public open spaces |
| Neuaddau pentref | | 0 | Village halls |
| Mynwentydd | 20,000 | 20,000 | Burial grounds |
| Hawliau tramwy - cynnal | | 0 | Rights of way - maintenance |
| Hawliau tramwy - gwella | 10,000 | 5,000 | Rights of way - improvement |
| Toori gwair/sbwriel / cyfleustarau | 30,000 | 31,500 | Grass cutting/ litter/ facilities |
| Atgyweirio a ailosod parciau | 20,000 | 11,000 | Park repairs and replacement |
| Goleuadau cyhoeddus - ynni | | 0 | Public lighting - energy |
| Goleuadau cyhoeddus - gwella | 6,000 | 4,000 | Public lighting - improvement |
| Datblygiad cymunedol | 42,000 | 48,500 | Community development |
| Costau Etholiadau | 0 | 8,000 | Election |
| Toiledau cyhoeddus | 14,000 | 11,200 | Public conveniences |
| Vat | 12,000 | 24,000 | VAT |
| | 268,289 | 274,602 | |

Llofnodwyd / Signed Cadeirydd / Chair Clerc / Clerk

| **Predicted Budget at March 31st 2025 THIS FINANCIAL YEAR** | **Actuall Budget** | **Predicted at 31st March 2025** |
|---|---|---|
| Expenditure | 268,289 | 254,816 |
| Income | 222,500 | 252,160 |
| **Budget 2025 - 26** | | |
| Expenditure | **274,602** | |
| Income | 231,300 | |
| **Deficit for 2025/26; funding from reserves** | **2025 - 26** | **Note** |
| Money to be allocated from reserves | 43,302 | (30789 Allocated 2024-25) |
| **Additional Budget 2025/26 explanation notes** | | **Notes** |
| **Staffing;** | | |
| Clerk going from point 30 to point 33 in April 2024 plus | 3,275 | As per Job Evaluation |
| Admin Assitant going from point 5 national pay award to point 13 (Allowance for expected 2.5% national pay award included) | 1496 | As per Job Evaluation |
| Pension | 2,185 | NEST Pension 4% Contribuion (less than budgetted of 8%) |
| **Grass cutting;** | | |
| 5% Annual increase in Council Services | 1,500 | |
| **Parks and Repairs increase of 5%** | 1,500 | |
| **Community Budget** | | |
| Increase on last year £6500 due to extra cost of Tennis Courts | 6500 | |
| **1. Reserves 2025/26 Earmarked** | | **Notes** |
| Parks and Play Areas x 11 parks | 150,000 | (£150,000 2024-25) |
| **2. Reserve funding of deficite on budget to keep precept at 180k** | 43,302 | (£30,7890 2024-25) |
| **3. General Reserves** | 63,711 | (£70,211 2024-25) |

This equates to 4.4 months of precept or 2.8 months of gross budgeted of gross expenditure.

**4. Growth in Electorate and Households.**

As at Oct 21st 2024 there were 9,403 Electors (9238 as of March 2023)

As at Oct 21st 2024 there were 5,380 Households

**5. Predictive balance in the bank at 31st March 2025** **257,013**

**NB** £277,013 Less £20,000 agreed from Reserves for Caerbryn Community in January 2025

Roedd y Clerc wedi mynd drwy pob pennawd incwm a gwariant, gan egluro ei resymau am osod y ffigyrau. Roedd y pwyntiau a drafodwyd a arweiniodd at welliannau, ar wahan i'r newidiadau y cytunwyd arnynt ynghylch gwariant ased o eitem blaenorol y Cynllun 5 Mlynedd Rheoli Asedau, fel a ganlyn:

- **Praesept:** Roedd y Cyng R. A. Davies o'r farn ei bod hi'n hen bryd codi'r praesept, wedi 10 mlynedd o beidio â gwneud hynny. Roedd y Cyng D. Thomas a Chadeirydd y Cyfarfod, y Cyng J. Tandy yn cytuno â hyn a, yn dilyn trafodaeth, yn cytuno â'r Cyng E. J. Davies.

Roedd y Cyng A. J. Evans o'r farn y dylai'r cyngor godi'r praesept yn raddol bob blwyddyn, yn hytrach nag ei adael yn ddigyfnewid am gyfnod hir, fel bod angen codi'r swm yn sylweddol – mae'r polisi yma eisoes wedi effeithio ar yr arian wrth gefn sy'n cynnal y gyllideb. Roedd Cadeirydd y Cyfarfod, y Cyng J. Tandy yn cytuno, fel roedd y Cadeirydd, y Cyng D. Hopkins. Ychwanegodd Cadeirydd y Cyfarfod, y Cyng J. Tandy y dylid defnyddio'r arian wrth gefn am brosiectau sydd o fudd i gymunedau a chynnal a chadw asedau.

Roedd y Cyng R. A. Davies wedi cynnig codiad o £10 yr aelwyd, ond roedd y Cyng D. Thomas wedi dadlau bod angen cyflwyno ffigwr fesul canran; roedd Cadeirydd y Cyfarfod, y Cyng J. Tandy o'r farn bod angen archwilio hyn ymhellach gan y byddai pob aelwyd yn cwympo i wahanol fandiau treth y cyngor.

Gofynnodd y Clerc ei fod yn cael ei gyfeirio i archwilio ffigwr go-iawn erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid. Cynigiodd y Cyng J. Tandy 7.7%, ac eiliwyd hyn gan y Cyng L. Wilkins.

**Argymhellwyd** derbyn cynnydd o 7.7% a bod y swm hwn yn cael ei ychwanegu at y Gyllideb Ddrafft ac yn adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid a gynhelir yn Nhachwedd 2024.

- Costau'r aelodau: Roedd Cadeirydd y Cyfarfod, y Cyng J Tandy, wedi awgrymu bod y gyllideb yn cael ei gynyddu er mwyn caniatau cynnydd yn nhreuliau cyfarfod yr aelodau. Roedd o'r farn y dylai'r swm o £15.00 aros fel y mae ar gyfer y rhai a oedd yn mynychu arlein, ond bod swm uwch yn cael ei dalu i'r rhai sy'n mynychu mewn person, er mwyn talu ei costau teithio.

Roedd y Cyng D. Thomas yn anghytuno, fel y gwnaeth y Cyng K. D. L Davies, a oedd o'r farn bod y mewnbwn arlein yn bwysig pan roedd y rhai sy'n mynychu arlein yn dilyn amserlen brysur, ac efallai bod modd ystyried talu costau teithio i ad-dalu'r gost o deithio yn ôl ac ymlaen i gyfarfodydd.

Roedd y Cyng A. J. Evans yn cytuno bod cynghorwyr yn mynychu arlein yn gwneud cyfraniad gwerthfawr, a bod modd ystyried talu costau teithio.

**Cytunwyd** bod y Clerc yn ystyried effaith talu costau teithio i gynghorwyr sy'n mynychu cyfarfodydd, ac yn adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid ym misTachwedd.

**530.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i’w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.47 yh.

_______________________ Cadeirydd